# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Bryant
# Dyddiad y gweithgarwch: 4 Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy:


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80391-430-5

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb o Wiriad Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Bryant fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Bryant yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treorci. Mae'r practis yn rhan o Rodericks Dental, sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r practis hefyd yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac i'r GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd.  Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ein dull ar gyfer sicrhau ansawdd a chynnal arolygiadau yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig, y rheolwr cydymffurfedd a rheolwr y practis ar 4 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r clinig yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

# Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylchedd gwaith cyffredinol y practis
- Asesiad risg ar gyfer offer miniog diogelach
- Asesiad risg ar gyfer y defnydd o ystafelloedd triniaeth

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Clywsom, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, fod amgylchedd y clinig wedi cael ei asesu i gynorthwyo â'r gwaith o reoli heintiau a'i wella. Cawsom wybod bod rhai ardaloedd yn y practis wedi cael eu hailwampio a bod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- Roedd gweithdrefnau desgiau clir ar waith gydag eitemau diangen yn cael eu symud o' ystafelloedd triniaeth, y dderbynfa a'r ardal aros
- Disodlwyd cadeiriau defnydd â chadeiriau plastig y mae modd eu golchi
- Codwyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- Roedd peiriannau hylif diheintio dwylo wedi'u lleoli mewn lleoliadau amrywiol

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, dywedwyd wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y practis.

Mae unrhyw gleifion y mae angen iddynt weld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod cleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau ac offer brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad sy'n hawdd cael mynediad atynt yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn ddyddiol i sicrhau nad ydynt wedi dyddio a'u bod yn barod eu defnyddio, yn unol â safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU). Cawsom wybod hefyd fod y silindr ocsigen a'r diffibriliwr yn cael eu gwirio'n ddyddiol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod rhai taflenni ac arwyddion yn y practis yn ddwyieithog.

Cawsom wybod bod y practis yn ymgysylltu â'r bwrdd iechyd lleol ar hyn o bryd er mwyn i'r holl lenyddiaeth gael ei chyfieithu a'i bod ar gael yn ddwyieithog. Cawsom wybod bod gan y practis un nyrs ddeintyddol, un clinigydd ac un derbynnydd sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis. Cawsom wybod hefyd fod gan y practis fynediad i linell iaith. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo. Cawsom wybod, ar ôl yr alwad gwiriad ansawdd, fod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaethau hyn gael eu hyrwyddo yn y practis gan ddefnyddio'r brand Iaith Gwaith. Mae'r brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau'r Gymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi COVID-19
- Pecyn adnoddau ffyrdd newydd o weithio (Cymru)
- Llawlyfr offer dihalogi
- Llawlyfr dihalogi cludwyr amalgamau
- Polisi glanhau amgylcheddol
- Cofnod glanhau amgylcheddol
- Offeryn archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o’r ystafelloedd triniaeth
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o’r peiriannau awtoclaf
- Cofnodion gwiriadau dechrau a diwedd y dydd dyddiol o’r ystafell ddihalogi
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig a'r golchwr dihalogi
- Cofnodion gwiriadau dŵr dyddiol
- Cofnod sgrinio COVID-19 dyddiol

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheolaeth ddeintyddol cleifion yng Nghymru yn ystod y cyfnod adfer ar ôl y pandemig COVID-19.[1] Bwriedir defnyddio'r canllawiau yn yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru. Gwelsom fod y practis wedi datblygu pecyn adnoddau mewnol sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio i arwain staff ar ddechrau'r pandemig. Dogfen fyw yw'r pecyn adnoddau a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf. Mae'r practis hefyd wedi datblygu ei fodiwl hyfforddiant dynodedig ei hun a gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae'r modiwl hyfforddiant yn hygyrch i'r holl aelodau staff drwy blatfform dysgu ar-lein y practis. Cawsom wybod hefyd fod y modiwl hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru yn unol â'r pecyn

[1] Rheoli cleifion deintyddol yn ystod y broses adfer ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU

adnoddau.

Cadarnhawyd bod yr holl staff wedi derbyn diweddariadau COVID-19 rheolaidd drwy grŵp WhatsApp[2] dynodedig, cyfarfodydd tîm, bwletinau wythnosol a chylchlythyrau wythnosol. Mae cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod yr holl staff sy'n gorfod defnyddio anadlyddion FFP3[3] wedi derbyn prawf ffit i sicrhau bod y masg yn ffitio'n gywir ac y bydd yn cynnig amddiffyniad digonol.

Cadarnhwyd bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 manwl[4] i asesu risgiau personol parhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig COVID-19.

Cawsom wybod bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda digonedd o stoc yn cael ei chyrchu a'i monitro'n wythnosol gan y tîm nyrsio deintyddol a rheolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod amserlenni glanhau ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ar waith a bod rhestrau gwirio ddyddiol yn cael eu cynnal.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad dihalogi a rheoli heintiau cyfunedig wedi cael ei gwblhau ar 25 Hydref 2021. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr archwiliad yn seiliedig ar ddogfen hunanasesu Cymdeithas Atal Heintiau Adran Iechyd Lloegr. Rydym yn argymell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru,[5] sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[6] Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw wahaniaethau rhwng safonau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu nodi.

## Llywodraethu/Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben

[2] Cymhwysiad traws-blatfform anfon negeseuon ar unwaith yw WhatsApp Messenger sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideos a chlywedol am ddim. Yn ogystal â negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

[3] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

[4] Mae'r Offeryn Asesu Risg wedi cael ei ddatblygu i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws COVID-19.

[5] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach. Awdurdod Iechyd Arbennig ydyw yn GIG Cymru ac mae'n cyd-fynd â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

[6] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad cydymffurfedd â dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

- Taflen wybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol
- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a bod fersiynau ohonynt wedi'u rheoli a'u bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

O'r dogfennau allweddol a adolygwyd gennym, roedd hi'n amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o archwiliadau perthnasol a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol, pelydrau-X a gwastraff clinigol. Roedd yr holl archwiliadau wedi cael eu cwblhau a, lle y bo angen, roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal.

Cawsom yr adroddiad unigolyn cyfrifol diweddaraf, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd y mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau dilyniant darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

Cawsom wybod bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydraddoldeb a hawliau cleifion. Yn ystod y pandemig, gwnaeth y practis ddefnyddio'r gwasanaeth 'Mynychu Unrhyw Le'[7] a brysbennu o bell i gyrraedd cleifion a oedd yn rhy ofnus i ddod i'r practis oherwydd COVID-19. Cawsom wybod hefyd bod apwyntiadau wedi'u diogelu ar gael i gleifion agored i niwed neu mewn perygl ar ddechrau neu ddiwedd pob dydd. Gwnaethom nodi o'r daflen wybodaeth i gleifion fod mynediad i bobl anabl a chyfleusterau eraill ar gael yn y practis, gan gynnwys ystafell driniaeth sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r derbynnydd yn ddwyieithog a gall gyfathrebu â chleifion yn Gymraeg ac mae gan y practis fynediad i linell iaith / cyfieithydd. Cawsom hefyd wybod bod cyfleuster dolen glyw ar gael i gefnogi defnyddwyr dolenni clyw.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom wybod yr ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm deintyddol. Gwnaethom

[7] Mae Gwasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru yn cynnig ffordd ddiogel i wasanaethau gofal iechyd weld cleifion dros apwyntiad fideo, yn hytrach na'u gweld wyneb yn wyneb. Cyflwynir y Gwasanaeth Ymgynghori Fideo drwy blatfform cyfathrebu o'r enw 'Mynychu Unrhyw Le'.

nodi bod angen i’r rhan fwyaf o'r staff adnewyddu eu hyfforddiant argyfyngau meddygol a bod trefniadau wedi cael eu gwneud i staff dderbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 8 Tachwedd 2021. Gwnaethom hefyd nodi bod angen i rai o'r clinigwyr adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân, cwynion a chanser y geg yn fuan. Cawsom wybod yn ystod y gwiriad ansawdd y byddai cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i staff adnewyddu unrhyw hyfforddiant sydd heb ei gwblhau. Gwnaethom dderbyn cadarnhad ar ôl yr alwad gwirio ansawdd y byddai unrhyw hyfforddiant y mae angen ei adnewyddu'n cael ei gwblhau erbyn 1 Rhagfyr 2021.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC ar gyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn.

# Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a bod angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella sy'n nodi'r manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

**Lleoliad:** **Practis Deintyddol Bryant**

**Dyddiad y gweithgarwch:** **04 Tachwedd 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd ac y dylai fersiwn derfynol o'r cynllun gwella gael ei chyflwyno drwy Objective Connect unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rydym yn argymell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Bydd y practis yn cwblhau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Gwnaeth y practis fynegi diddordeb mewn cofrestru ar gyfer yr archwiliad hwn ar 15/11/2021 drwy e-bostio heiw.dentalgi@wales.nhs.uk | Rheolwr cofrestredig | I'w gwblhau erbyn 17/01/2022 |
| 2 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC ar hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn. | Rheoliad 17 (3) (a) | Gwnaeth yr holl staff gwblhau hyfforddiant argyfyngau meddygol ymarferol ar 08/11/2021.<br><br>Clinigwyr i gwblhau datblygiad proffesiynol parhaus a | Rheolwr cofrestredig | I'w gwblhau erbyn 31/01/2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | argymhellir ac nad yw wedi’i gwblhau neu ddarparu tystysgrifau ar gyfer y canlynol:<br>Canser y geg<br>Diogelwch tân<br>Cwynion<br>Dyddiad cwblhau arfaethedig: 01/12/2021. Mae gan yr holl glinigwyr fynediad i'r cyrsiau hyn drwy blatfformau ar-lein. Yr holl weithwyr proffesiynol gofal deintyddol cofrestredig i gwblhau hyfforddiant radiograffeg a diogelwch rhag ymbelydredd. Mae gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol wedi derbyn cyngor i wirio platfformau ar-lein a'u gwefan ôl-raddedig leol i gael mynediad i'r cwrs hwn. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Cara Ledwidge
Dyddiad: 15/11/2021